WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad Awdurdod Cyfan o drefniadau diogelu plant – **Cyngor Sir Fynwy**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 582A2018-19

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Lisa McCarthy a Ron Price o Swyddfa Archwilio Cymru, ar y cyd â Gerard Kerslake a Farrukh Khan o Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) a Duncan Marshall o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Rheolwyd y gwaith gan Non Jenkins a David Wilson o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu plant wedi gwella yn ddiweddar, ond ceir diffygion mewn rhai meysydd polisi a gweithredu hanfodol

Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer gwella 6

Adroddiad manwl

Mae fframwaith a threfniadau diogelu plant y Cyngor wedi gwella yn ddiweddar 7

Mae'r trefniadau o ran arweinyddiaeth, cyfeiriad strategol ac atebolrwydd wedi gwella ym maes diogelu plant, yn enwedig mewn addysg ac yn y gwasanaethau cymdeithasol 7

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaeth Kerbcraft, ac wrth ymateb
i adroddiadau Estyn ac AGC. 9

Mae polisi diogelu'r Cyngor yn gynhwysfawr ac wedi'i gefnogi gan drefniadau ac Arweinyddion Diogelu Cyfarwyddiaeth 10

Mae'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel yn gwella ac yn datblygu'n fwy gwydn yn sgil cyflwyno mesurau rheoli ychwanegol a chodi ymwybyddiaeth 11

Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid allanol a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol 13

Mae'r trefniadau i fonitro, rheoli a chraffu ar berfformiad a risg yn gadarn ar y cyfan 15

Ceir diffygion mewn rhai meysydd polisi a gweithredu hanfodol 17

Nid yw'r polisi diogelu wedi'i integreiddio'n ddigonol eto ar draws fframwaith polisi'r Cyngor 17

Nid yw pob agwedd ar recriwtio'n ddiogel, ymsefydlu a hyfforddi wedi'u hymwreiddio'n gyson 19

Gweithredir trefniadau rheolaeth mewn modd anghyson, gan ddatgelu rhai bylchau o ran atebolrwydd 20

Ceir gwendidau yn nhrefniadau comisiynu a chontractio'r Cyngor mewn perthynas â diogelu plant 21

Atodiad 1 – Argymhellion: Adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru, 2015 23

Atodiad 2 – Argymhellion Statudol: Trefniadau Diogelu Archwilydd Cyffredinol Cymru – adroddiad lleol cynllun Kerbcraft, 2017 25

# Adroddiad cryno

1 Yn adroddiad cenedlaethol Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru', casglwyd bod **trefniadau sicrwydd corfforaethol cynghorau Cymru ar gyfer goruchwylio diogelu plant yn amrywio o ran ansawdd.**

2 Roedd yr adroddiad cenedlaethol yn trafod gwaith lleol a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mhob un o 22 o Gynghorau Cymru yn ystod 2014. Nodai'r adroddiad wendidau mewn trefniadau diogelu, a chyflwynodd naw o argymhellion cenedlaethol, yr oedd saith ohonynt wedi'u cyfeirio at bob cyngor ledled Cymru. Nodir y saith argymhelliad yn Atodiad 1.

3 Ym mis Awst 2014, casglodd y gwaith lleol ar gyfer yr adolygiad yng Nghyngor Sir Fynwy **fod rhai gwendidau yn y trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli er mwyn gwirio a yw Cyngor Sir Fynwy yn cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu plant, a bod yn rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â'r gwendidau hynny.** Roedd yr adroddiad lleol yn cynnwys tri chynnig penodol ar gyfer gwella i'r Cyngor, ac mae'r rhain hefyd wedi'u nodi yn Atodiad 1.

4 Ym mis Chwefror 2017, adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru wendidau pellach yn nhrefniadau diogelu'r Cyngor, yn ei adroddiad lleol, 'Trefniadau diogelu - cynllun Kerbcraft'. Casglai'r adroddiad fod plant yn **agored i risg oherwydd gwendidau parhaus yn nhrefniadau diogelu cynllun Kerbcraft, nad oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â hwy'n ddigonol.**

5 Roedd yr adroddiad yn cynnwys tri argymhelliad ffurfiol statudol a wnaed o dan Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, a nodir yn Atodiad 2.

6 Ffocws yr Adolygiad Awdurdod Cyfan hwn o Drefniadau Diogelu Plant oedd asesu a oes gan y Cyngor drefniadau digonol i ddiogelu plant, a chael sicrwydd bod y trefniadau hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol ym mhob maes gweithgarwch a phob tro wrth ymwneud â phlant. Buom yn archwilio cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol a gyflwynwyd i'r Cyngor, a hefyd yn ystyried rhai meysydd lle ceir risg uwch, fel ymagwedd y Cyngor at blant sy'n derbyn gofal, a rhai meysydd lle bydd gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn ymwneud â phlant.

7 Daethom i'r casgliad **bod y polisi a'r gweithdrefnau diogelu plant wedi gwella yn ddiweddar, ond bod diffygion mewn rhai meysydd polisi a gweithredu hanfodol.** Dywedwn hyn am y rhesymau canlynol:

- mae fframwaith a threfniadau diogelu plant y Cyngor wedi gwella yn ddiweddar; ac
- mae diffygion mewn rhai meysydd polisi a gweithredu hanfodol.

# Cynigion ar gyfer gwella

Dangosyn 1: yn y tabl isod rydym yn cynnig gwelliannau pellach i’r Cyngor

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Integreiddio diogelu ar draws fframwaith polisi’r Cyngor. Yn benodol:<br>a. Creu ‘cynllun prosiect’ sy’n nodi’r gwaith sylfaenol sydd angen ei gyflawni, a’r graddfeydd amser cysylltiedig er mwyn ymgorffori ymagwedd y Cyngor at integreiddio diogelu plant ac oedolion yn llawn.<br>b. Ail-fframio’r gofrestr risg strategol, er mwyn iddi adlewyrchu egwyddorion CAMPUS yn well wrth fesur effaith camau a gymerir i liniaru risgiau a nodir.<br>c. Cryfhau polisi a chanllawiau diogelu yn y meysydd a nodir yn yr adroddiad hwn. Gan gynnwys:<br>– trefniadau a chanllawiau diogelu data yn gysylltiedig â diogelu;<br>– ymwreiddio trefniadau polisi chwythu’r chwiban drwy hyfforddiant a thrwy godi ymwybyddiaeth; ac<br>– adolygu trefniadau trwyddedu tacsis er mwyn cryfhau’r gofynion iechyd a diogelwch. |
| C2 | Ymwreiddio pob agwedd ar recriwtio’n ddiogel, ymsefydlu a hyfforddi mewn modd cyson.<br>Yn benodol:<br>a. Gwella cofnodion hyfforddiant ar ddiogelu i ddangos pam bod unigolyn wedi derbyn lefel hyfforddiant neilltuol, pryd y derbyniwyd yr hyfforddiant a phryd y mae angen ei adolygu.<br>b. Sicrhau bod pawb a chanddynt rôl benodol ym maes diogelu yn derbyn hyfforddiant priodol.<br>c. Cadarnhau a oes angen gwiriadau DBS a sicrhau bod y gwiriadau hynny’n cael eu cynnal yn unol â’r cyfarwyddyd. |
| C3 | Sicrhau bod trefniadau rheolaeth yn cael eu gweithredu’n gyson, a gwella’r trefniadau i fonitro perfformiad yn gysylltiedig â diogelu, i gynnwys holl feysydd gweithredu gwasanaethau, er mwyn ymdrin â bylchau mewn atebolrwydd. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi canllawiau clir i reolwyr ar wybodaeth am ddiogelu y dylid ei chynnwys mewn adroddiadau i’r Aelodau. |
| C4 | Gwella trefniadau comisiynu a chontractio’r Cyngor yn gysylltiedig â diogelu plant drwy gwblhau’r canllawiau ar gomisiynu, contractio a gwirfoddoli o safbwynt diogelu. |

# Adroddiad manwl

## Mae fframwaith a threfniadau diogelu plant y Cyngor wedi gwella yn ddiweddar

### Mae'r trefniadau o ran arweinyddiaeth, cyfeiriad strategol ac atebolrwydd wedi gwella ym maes diogelu plant, yn enwedig mewn addysg ac yn y gwasanaethau cymdeithasol

8 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer diogelu plant wedi cael eu cryfhau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae gan y Cyngor drefniadau gwell ar gyfer arwain ac atebolrwydd o ran diogelu plant, gyda pholisïau wedi'u hailwampio, diogelu wedi'i gysylltu â Chynlluniau Gwella Gwasanaethau (CGGau), ac mae trefniadau gwell wedi'u sefydlu ar gyfer risg a lliniaru risg. Rydym hefyd yn gweld bod y Cyngor yn hunanymwybodol o ran y gwelliannau sydd eu hangen i'w drefniadau diogelu. Cyflwynodd y Cyngor ddatganiad o'r sefyllfa cyn inni gynnal ein gwaith maes, ac roedd hi'n dda gweld ei fod yn cydnabod ym mha feysydd yr oedd angen iddo gryfhau ei fframwaith diogelu.

9 Mae datganiad sefyllfa'r Cyngor yn cydnabod bod y risgiau a'r mesurau lliniaru yn gysylltiedig â diogelu yn newid o hyd, a bod angen i'r Cyngor fod yn wyliadwrus bob amser er mwyn nodi risgiau newydd a'u lliniaru. Mynegodd aelodau uwch o'r staff wrthym eu bod am ymsefydlu diwylliant ar draws y sefydliad a chanddo ffocws clir ar ddiogelu, lle bydd pobl yn ceisio lliniaru risgiau posibl mewn modd rhagweithiol. Gwelsom hefyd ddealltwriaeth dda o gymesuredd o ran diogelu plant ar draws y Cyngor, gyda swyddogion a chynghorwyr yn dangos ymwybyddiaeth o'r modd y bydd ffactorau risg yn amrywio mewn gwahanol amgylchiadau.

10 Mae Polisi Diogelu newydd wedi cryfhau ymagwedd gyffredinol y Cyngor at ddiogelu plant. Mae'r polisi hwnnw'n cefnogi cyfeiriad strategol cliriach ar gyfer diogelu plant ar draws gwasanaethau'r cyngor. Ceir pedwar conglfaen i'r polisi:

- Gwasanaethau diogel
- Gweithlu diogel
- Mesurau amddiffyn cadarn
- Ymagweddau ataliol

Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Cynlluniau Gwella Gwasanaethau CGGau a chanllawiau Fframwaith Archwilio Diogelu'r Cyngor ar gyfer Gwerthuso (SAFE).

11 Mae'r Cyngor wedi cryfhau trefniadau atebolrwydd ar gyfer diogelu drwy ymestyn proses Fframwaith Archwilio Diogelu'r Cyngor ar gyfer Gwerthuso o gynnwys Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnwys 'holl wasanaethau'r Cyngor' yn ystod 2017. Defnyddir y broses SAFE i gasglu gwybodaeth a monitro'r graddau y mae Timau Rheoli Adrannol, ysgolion a lleoliadau eraill sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, ac oedolion sy'n agored i risg, yn cydymffurfio â'r polisi Diogelu. Cynhelir yr archwiliad dwywaith pob blwyddyn, a defnyddir yr wybodaeth i wella'r trefniadau diogelu.

12 Gwelir ethos cryfach o ran diogelu ym meysydd gwasanaeth addysg a’r gwasanaethau cymdeithasol na mewn meysydd gwasanaeth eraill. Yn y meysydd hyn, gwelir ffocws ar wella trefniadau a arweinir gan uwch swyddogion, a rhai enghreifftiau lle mae’r trefniadau o ran atebolrwydd wedi gwella. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo hybu’r ethos cryf hwn a chanolbwyntio ar welliannau ar draws yr holl wasanaethau.

13 Mae gan y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ymwybyddiaeth gref o faterion diogelu o fewn y gyfarwyddiaeth, a gall gyfeirio at systemau diogel sydd ar waith er mwyn ymdrin â materion diogelu.

14 O fewn yr ysgolion, mae’r penaethiaid yn mynegi bod ganddynt lawer o hyder yn y gefnogaeth a ddarperir iddynt gan y Cyngor mewn perthynas â diogelu. Bydd diogelu bob tro wedi’i gynnwys mewn cyfarfodydd hanner tymhorol rhwng penaethiaid a’r Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc. Mae’r Cyngor yn monitro’r ysgolion hynny a chanddynt ddarparydd allanol ar gyfer swyddogaethau Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau ymdriniaeth briodol â diogelu, a sicrhau y caiff pob agwedd ar ganllawiau statudol ‘Cadw Dysgwyr yn Ddiogel’ [1]gan Lywodraeth Cymru ei chadw a’i monitro.

15 Yn adroddiad y Cyngor i’r Cabinet ar 6 Rhagfyr 2017, ‘Cyflawni Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Plant: Mae ‘Llwybr Atgyfeirio ac Ymyrraeth Aml-asiantaeth ar gyfer Cefnogaeth ac Ataliaeth Gynnar gan gynnwys Alinio’r Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)’, yn cynnwys elfennau diogelu defnyddiol, gan ymestyn ystyriaeth o’r pwnc ar draws sawl rhan o’r Cyngor.

16 Nodir rolau Cynghorwyr a’r Arweinydd ym mholisi diogelu’r Cyngor, a thrwy ein cyfweliadau, gwelwyd bod y deiliaid swydd hynny yn deall y rolau’n dda ar y cyfan. Mae aelodau’r Cabinet a Chynghorwyr yn rhoi cryn sylw i ddiogelu, ac mae hyn o gymorth i sicrhau pwysigrwydd ac ymwybyddiaeth o hynny ar lefel uchel yn gorfforaethol. Yn ystod ein cyfweliadau, gwelsom ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd diogelu a’i amlygrwydd mewn polisi corfforaethol.

17 Mae Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan (GDAC) y Cyngor, sef grŵp o swyddogion a ffurfiwyd ym mis Gorffennaf 2014, yn helpu i wella trefniadau diogelu ar draws y Cyngor. Mae gan GDAC gylch gorchwyl clir, a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yw’r cadeirydd. Mae strategaeth dysgu a datblygu’r Cyngor yn disgrifio rôl GDAC yng nghyd-destun ymestyn dysgu a datblygu yn gysylltiedig â diogelu ar draws y Cyngor.

18 Mae uwch swyddogion arweiniol y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg o fewn y Cyngor yn glir iawn ynghylch yr angen i ymestyn cyfrifoldebau diogelu ar draws yr holl wasanaethau. Roeddent hefyd yn gallu rhoi enghreifftiau penodol lle’r oedd y Cyngor wedi ymdrin â phryderon a gweithredu mesurau rheoli ychwanegol. Cadarnhaodd uwch swyddogion fod diogelu yn eitem safonol ar yr agenda yng nghyfarfodydd timau rheoli adrannol, a bod agweddau swyddogion arweiniol ynghylch diogelu yn gadarnhaol iawn ar draws adrannau. Roeddent gadarnhaol iawn ynghylch y modd y mae GDAC wedi cryfhau

[1] Llywodraeth Cymru, 2015, Cadw dysgwyr yn ddiogel, Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002

cysylltiadau rhwng adrannau, yn enwedig y berthynas waith rhwng y gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau plant.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaeth Kerbcraft, ac wrth ymateb i adroddiadau Estyn ac AGC

19 Trafododd y Cyngor adroddiad Chwefror 2017 Swyddfa Archwilio Cymru ar Kerbcraft yn ei gyfarfod[2] ar 20 Mawrth 2017[3]. Fe'i cyflwynwyd hefyd gerbron Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc y Cyngor. Nodir ymateb y Cyngor i'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad Kerbcraft yng Nghynllun Gwella Gwasanaeth Diogelu'r Cyngor. Bu GDAC hefyd yn ystyried yr argymhellion hynny.

20 Mae'r Cyngor yn parhau i roi'r newyddion diweddaraf am gynnydd yn gysylltiedig â'i wasanaeth Kerbcraft, ac fe gyflwynwyd adroddiad pellach gerbron y Cabinet ar ddiwedd mis Chwefror 2018, ar ôl cwblhau ymchwiliad annibynnol allanol.

21 Mewn ymateb i'n hadroddiad Kerbcraft, mae gwiriadau wedi'u cynnal gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer yr holl wirfoddolwyr yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan, ac mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor wedi dilysu hyn. Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau diogelu yn yr ysgolion, yn dilyn ei ymchwiliad mewnol ei hun a'r ymchwiliad annibynnol allanol a gomisiynodd hefyd. Mae arferion gwirfoddoli a threfniadau monitro cydymffurfio bellach yn fwy trwyadl, ac mae mesurau rheoli gwell bellach ar waith. Mae'r Cyngor wedi sefydlu system newydd i gofnodi DBS gwirfoddolwyr a gwybodaeth iechyd a diogelwch yn ganolog.

22 Mae'r Cyngor hefyd wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad arolygu awdurdod lleol Estyn ym mis Tachwedd 2012, ac yn yr ymweliadau monitro dilynol a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror 2014 a mis Tachwedd 2015.

23 Yn ogystal â hyn, mae AGC o'r farn fod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan i'r adborth a roddodd yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw effeithiolrwydd nac effaith rhai agweddau ar yr ymateb hwn wedi cael eu profi'n ymarferol eto.

24 Mae proses werthuso SAFE y Cyngor, a sefydlwyd ar draws yr holl wasanaethau mewn ymateb i ddiffygion a nodwyd mewn adroddiadau rheoleiddio allanol, yn broses gref sydd wedi'i gweinyddu'n dda ac sy'n helpu'r Cyngor i ysgogi gwelliannau pellach er mwyn diogelu ei blant.

25 Ymddengys fod Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) Diogelu y Cyngor yn briodol ac yn trafod y meysydd perthnasol, gan nodi camau gweithredu i bob rhan o'r Cyngor. Ceir

[2] Ym mis Chwefror 2017, amlygodd Swyddfa Archwilio Cymru bryderon ynghylch y cynllun yn ei adroddiad lleol 'Trefniadau diogelu - cynllun Kerbcraft'. Casgliad yr adroddiad oedd bod plant yn agored i risg oherwydd gwendidau parhaus yng nghynllun Kerbcraft nad oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â hwy'n ddigonol.

[3] Agenda a chofnodion Cyngor Sir Fynwy

cysylltiad cryf rhwng y CGG diogelu a CGGau y Gwasanaethau Plant a Phlant a Phobl Ifanc, sydd wedi'u seilio ar adroddiadau arolygu a rheoleiddio gan AGC ac Estyn.

26 Ymddengys fod gwerthusiadau mewnol ac allanol wedi cael eu hystyried wrth gynllunio gwasanaethau. Mae'r camau gweithredu a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn CGG Diogelu wedi'u tynnu o'r dadansoddiad o berfformiad yn adroddiad gwerthuso diogelu Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, a adroddir gerbron yr aelodau dwywaith pob blwyddyn.

27 Ar ben hynny, mae papur Ymyrraeth Gynnar a gyflwynwyd gerbron y Cabinet ar 6 Rhagfyr yn cynnig y dylid cadw ffocws y tîm ar 'Tîm o Amgylch y Teulu' (TAT), yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, ond y dylid aildrefnu'r gweithgarwch fel bod gwaith y tîm yn canolbwyntio mwy ar weithio'n uniongyrchol â theuluoedd sy'n agored i niwed ac sydd ar drothwy derbyn ymyrraeth statudol, i'w hatal rhag gorfod derbyn cefnogaeth statudol. Bydd y tîm yn cael ei dasgau a'i gefnogi i ymyriadau briff cyflwyno sy'n deilliannau sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i blant a theuluoedd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014. Drwy weithio fel hyn, mae'r Cyngor yn rhagweld y dylai cynhyrchiant gynyddu, o ymwneud â 60 o deuluoedd y flwyddyn i ymwneud â 150 o deuluoedd y flwyddyn.

28 Mae'r Cyngor wedi sefydlu rhaglenni addas i ymdrin ag agweddau ar ymyrraeth ac ataliaeth gynnar a nodwyd yn natganiad sefyllfa'r Cyngor. Er enghraifft, mae rhaglenni wedi cael eu sefydlu i annog gwytnwch mewn pobl ifanc. Ar ben hynny, mae'r Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc yn cyfarfod yn rheolaidd â'r cyngor ieuenctid er mwyn canfod materion sy'n destun pryder iddynt.

## Mae polisi diogelu'r Cyngor yn gynhwysfawr ac wedi'i gefnogi gan drefniadau ac Arweinyddion Diogelu Cyfarwyddiaeth

29 Cafodd Polisi Diogelu Corfforaethol newydd y Cyngor, sydd yn trafod diogelu plant ac oedolion, ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Polisi yn egluro'r berthynas rhwng gwasanaethau a'r Uned Diogelu a Sicrhau Ansawdd. Mae adroddiadau cynnydd gwerthusol SAFE y Cyngor yn cadarnhau'r conglfeini y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i gadw pobl yn ddiogel yn Sir Fynwy. Mae'r polisi a dogfennau strategol allweddol eraill, fel y polisi gwirfoddoli, cynlluniau gwella gwasanaeth a'r Fframwaith Archwilio Diogelu ar gyfer Gwerthuso (SAFE) yn creu hierarchaeth gadarn o ddogfennau polisi i gefnogi'r fframwaith o drefniadau i ddiogelu plant o fewn y Cyngor.

30 O'r cychwyn cyntaf, mae'r Polisi newydd yn datgan yn glir ei bod hi'n 'gyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu plant ac oedolion rhag camdriniaeth.' Mae'n cynnwys diffiniad o 'blant a phobl ifanc', sef unrhyw un nad yw eto wedi cael ei ben-blwydd yn 18 oed.

31 Mae polisi diogelu'r Cyngor yn nodi rolau a chyfrifoldebau, a'r trefniadau i gefnogi hynny, yn glir. Mae'n cynnwys:

a. yr egwyddorion sy'n sail i'w gamau yn gysylltiedig â diogelu, a'r cyd-destun deddfwriaethol;

b. ei drefniadau llywodraethu ategol, a rolau byrddau rhanbarthol, prif swyddogion, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, aelodau'r Cabinet, rheolwyr

arweiniol dynodedig, Arweinwyr Diogelu Cyfarwyddiaeth a phenaethiaid gwasanaeth ar draws holl wasanaethau'r Cyngor;

c. amlinelliad bras o'r gweithdrefnau ar gyfer recriwtio'n ddiogel a hyfforddi; a

d. chyfeiriadau addas at radicaleiddio, camfanteisio'n rhywiol ar blant, hunan-niwed, masnachu mewn plant a cham-drin domestig.

32 Yn ogystal â nodi'r trefniadau sydd ar waith, mae'r polisi'n nodi'n glir y gwasanaethau a'r personél y mae'n berthnasol iddynt, gan gynnwys:

a. pobl sy'n gweithio i'r Cyngor, gan gynnwys cyflogeion parhaol a thros dro, myfyrwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr a gyflogir gan asiantaethau cyflogaeth, contractwyr ac ymgynghorwyr;

b. gwasanaethau a gomisiynir sy'n bodloni safonau diogelu Sir Fynwy; a

c. darparwyr, partneriaid a rhanddeiliaid allanol.

33 I gefnogi unrhyw bolisi diogelu, mae'n bwysig gwneud trefniadau sy'n galluogi pobl i adrodd am unrhyw bryderon yn ddiogel, a chael cymorth i wneud hynny. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno gwelliannau i'w Drefniadau Datgelu er Lles y Cyhoedd (TDLlC), a elwir yn aml yn drefniadau chwythu'r chwiban. Cymeradwyodd y Cyngor bolisi chwythu'r chwiban newydd ym mis Mehefin 2017, a chynhaliodd sesiwn briffio i uwch reolwyr ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r polisi'n nodi cyd-destun deddfwriaethol TDLlC, yn trafod rolau a chyfrifoldebau, pwy a all adrodd pryderon, a sefyllfaoedd lle defnyddir contractwyr. Mae'n debyg i nifer o bolisïau chwythu'r chwiban eraill, ac yn gynhwysfawr a chlir ar y cyfan. Mae'r Cyngor wedi nodi bod angen iddo bellach lunio canllawiau pellach i reolwyr ar weithredu'r polisi.

## Mae'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel yn gwella ac yn datblygu'n fwy gwydn yn sgil cyflwyno mesurau rheoli ychwanegol a chodi ymwybyddiaeth

34 Mae'r Cyngor wedi cryfhau trefniadau recriwtio diogel dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Polisi Diogelu newydd y Cyngor (2017) yn cynnwys safonau recriwtio diogel ac wedi'i gefnogi gan broses recriwtio diogel, ac mae rheolwyr recriwtio yn derbyn hyfforddiant ar hynny. Mae adroddiadau gwerthuso SAFE y Cyngor yn nodi ei gynnydd o ran recriwtio'n ddiogel, ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf am agweddau penodol ar recriwtio.

35 Mae Polisi Gwirfoddoli'r Cyngor, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2017, yn nodi'r safonau ar gyfer recriwtio'r gweithlu gwirfoddol yn ddiogel. Mae'n rhaid i bob maes gwasanaeth sy'n bwriadu defnyddio gwirfoddolwyr benodi cydgysylltydd gwirfoddoli, ac mae'n rhaid i'r unigolyn hwnnw dderbyn 'hyfforddiant arwain gwirfoddolwyr' cychwynnol. Mae'r 'hyfforddiant arwain gwirfoddolwyr' hwn yn cynnwys gofynion ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr yn ddiogel. Mae'r trefniadau i recriwtio gwirfoddolwyr wedi cael eu cryfhau ers i'r Cyngor gydnabod y bylchau a oedd yn bodoli yn dilyn adroddiad Kerbcraft ac adolygiadau archwilio mewnol dilynol.

36 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno mesurau rheoli mwy trwyadl i fonitro'r graddau y cydymffurfir â pholisi ac arferion Gwirfoddoli. Erbyn hyn, mae system newydd wedi'i sefydlu i gofnodi DBS gwirfoddolwyr a gwybodaeth am iechyd a diogelwch yn ganolog.

37 Cyn cyflwyno'r system newydd hon, cynhaliodd y Cyngor adolygiad llawn o gydymffurfiaeth ymhlith gwirfoddolwyr, gan anelu i sicrhau 100% o gydymffurfiaeth â phob agwedd ar y safonau ar gyfer gweithlu diogel. Nodir y gofynion hyn yn y Polisi Gwirfoddoli sydd newydd ei fabwysiadu, ac maent yn cryfhau'r trefniadau a'r mesurau rheoli blaenorol yn gysylltiedig â gwirfoddoli. Bydd hyfforddiant ymsefydlu cefnogol, ond cynhwysfawr, yn cael ei ddarparu i'r holl wirfoddolwyr a bydd yn rhaid i bob maes gwasanaeth bennu cydgysylltydd gwirfoddoli. Mae rôl y cydgysylltydd wedi'i diffinio a'i disgrifio'n glir. Yn ôl y canllawiau, ni ddylid defnyddio yr un gwirfoddolwr mewn unrhyw amgylchiadau heb gynnal y gwiriadau angenrheidiol cyn cychwyn y gweithgarwch gwirfoddoli. Bydd hyn yn creu mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch rôl gwirfoddolwyr yn y dyfodol.

38 Mae'r trefniadau polisi a rheolaeth yn gysylltiedig â phrosesau DBS wedi'u cryfhau. Cymeradwyodd y Cyngor bolisi DBS cyfredol ym mis Rhagfyr 2017 sy'n nodi disgwyliadau clir o ran y gweithdrefnau y dylid eu dilyn. Bydd gwasanaeth Pobl y Cyngor yn anfon adroddiadau eithrio DBS i staff a gwirfoddolwyr, gan gynnwys llywodraethwyr ysgol, i hyrwyddwyr DBS y Cyfarwyddiaethau fynd ar eu trywydd. Eu rôl hwy yw adolygu, gwirio a hysbysu'r rheolwyr angenrheidiol er mwyn iddynt weithredu.

39 Mae'r Cyngor wedi gweithredu i gryfhau'r rheolaeth mewn ysgolion. Mae'r holl lywodraethwyr ysgol bellach wedi derbyn gwiriadau DBS. Mae gan Benaethiaid ysgol agwedd gadarnhaol ynghylch y trefniadau i sicrhau bod gyrwyr tacsi a bysiau yn derbyn gwiriadau addas. Mae gan ysgolion brosesau addas ar waith i fonitro'r rhain ac i sicrhau bod y bobl gywir sydd yn codi plant o'r ysgol.

40 Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) [4] yn cefnogi trefniadau i recriwtio staff yn ddiogel. Mae'r GCA yn sicrhau bod eu staff, er enghraifft, yn herio cynghorwyr, eu bod wedi derbyn hyfforddiant addas a'u bod wedi derbyn y gwiriadau perthnasol. Mae'r GCA hefyd yn darparu hyfforddiant diogelu i lywodraethwyr ysgol ac yn cadw cofnodion o'r hyfforddiant hwnnw.

41 Rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2017, derbyniodd 49 o reolwyr y Cyngor hyfforddiant ar recriwtio'n ddiogel. Mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau bod 100% o'i holl gyflogeion yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Bydd y Gwasanaeth Pobl yn hysbysu'r rheolwr recriwtio am unrhyw achos posibl o dorri'r rheolau, a byddai unrhyw eithriadau yn cael eu hadrodd fel digwyddiad o bwys drwy'r system SCAA (Sefyllfa-Cefndir-Asesiad-Argymhelliad). O fewn y Gwasanaethau Plant, roedd yr holl rheolwyr y buom yn siarad â hwy yn gwybod sut i recriwtio'n ddiogel.

42 Darperir digon o wybodaeth i herio ymgeiswyr swydd yn fuan yn y broses recriwtio. Nodir yn glir ym mhrotocol recriwtio'r Cyngor y dylai rheolwyr recriwtio 'Sicrhau bod yr ymgeisydd yn gwybod bod y penodiad yn amodol ar dderbyn 2 eirda boddhaol; gwiriad meddygol a gwiriad DBS (os yw'n berthnasol) CYN iddynt ddechrau gweithio gyda CSF'. Os oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd, bydd y Gwasanaethau Pobl yn sicrhau bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn ffurflen gais DBS ac yn dychwelyd y ffurflen honno cyn gynted ag

[4] Mae pum awdurdod lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen wedi ffurfio consortiwm addysg rhanbarthol - y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA). Pwrpas y gwasanaeth yw codi safonau addysg yn Ne Ddwyrain Cymru.

sy'n bosibl fel bo modd gwirio'r manylion adnabod, a throsglwyddo'r wybodaeth i'w phrosesu gan y Tîm Cymorth Gwasanaethau Pobl.

43 Wrth drafod â rheolwyr tîm y Cyngor o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, gwelsom yn glir eu bod yn deall sut y dylid ymdrin â honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol. Mae trefniadau cadarn ar waith ar draws y Cyngor i ymdrin â honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol, ac mae gwasanaethau yn dilyn canllawiau mewnol.

44 Mae'r trefniadau hyfforddi wedi cael eu gwella. Mae hyfforddiant ar ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu wedi cael ei ehangu i gynnwys oedolion a phlant sy'n agored i risg, ac wedi'i gynnwys yn rhan o'r holl ddiwrnodiau ymsefydlu corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi ymdrechu i godi proffil diogelu drwy amrywiaeth o ffyrdd. Y mae, er enghraifft, wedi creu ffilm syml i godi ymwybyddiaeth ynghylch diogelu, sy'n trafod Sir Fynwy yn benodol. Mae strategaeth dysgu a datblygu'r Cyngor yn cynnig fframwaith corfforaethol lefel uchel i hyrwyddo hyfforddi a datblygu ym maes diogelu Mae'n nodi rolau'r grwpiau amrywiol, gan gynnwys GDAC, arweinwyr diogelu a'r uned ddiogelu.

45 Mae holl aelodau'r gweithlu yn gyfrifol am eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus eu hunain, ac am sicrhau bod eu hyfforddiant diogelu yn gyfredol a'u bod wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf. Mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddiaeth gadw cofnod o hyfforddiant diogelu'r gweithlu dryw ddefnyddio templed a ddarperir.

46 Mae'r safonau hyfforddi a osodwyd ym Mholisi Diogelu Corfforaethol Gorffennaf 2017 yn trafod dyletswydd gweithlu cyfan y Cyngor i adrodd a diogelu plant ac oedolion sy'n agored i risg, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac mae'r holl gofnodion hyfforddi bellach yn cael eu cadw mewn un man.

47 Mae'r trefniadau ym maes gwarchod y cyhoedd wedi'u hen sefydlu. Mae hyfforddiant diogelu yn ofynnol i yrwyr cerbydau hacni a hurio preifat trwyddedig. Cynigir hyfforddiant diogelu i ddeiliaid trwydded alcohol, adloniant a lluniaeth hwyr y nos, ond nid yw'r hyfforddiant hwnnw'n orfodol.

48 Roedd gan yr holl dimau a'r rheolwyr yn buom yn siarad â hwy agwedd gadarnhaol ynghylch eu profiad hwy eu hunain o hyfforddiant ymsefydlu a hyfforddiant parhaus yn gysylltiedig â diogelu, a hefyd ynghylch profiadau cydweithwyr ac eraill a oedd yn cael eu recriwtio i weithio fel aelodau o'u timau.

49 Dywedodd y staff mwy profiadol y buom yn siarad â hwy eu bod yn teimlo bod gweithdrefnau diogelu yn gyffredinol, a hyfforddiant ar ddiogelu yn benodol, wedi cael eu hymwreiddio'n well ac yn gadarnach, yn dilyn adroddiad arolygu Estyn yn 2012, ac ers sefydlu GDAC y Cyngor. Mae polisi a chanllawiau wedi cael eu cryfhau eto ers adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Kerbcraft yn 2016.

## Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid allanol a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

50 Caiff y strwythur rhanbarthol ar gyfer diogelu yn Ne Ddwyrain Cymru ei gyfleu'n dda yn nogfennau polisi diogelu corfforaethol y Cyngor. Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru (BDPDDdC) sydd â'r cyfrifoldeb statudol dros arwain y rhanbarth yn strategol yn

gysylltiedig â diogelu plant a hyrwyddo eu lles. Mae BDPDDdC wedi disodli'r pum Bwrdd Lleol Diogelu Plant a weithredai'n flaenorol yn y rhanbarth.

51 O gynllun strategol ac adroddiadau BDPDDdC, a thrwy gyfweliadau a grwpiau ffocws, mae'n amlwg bod Cyngor Sir Fynwy yn chwarae rhan lawn a gweithgar ar y Bwrdd Diogelu, ochr yn ochr â chynghorau partner eraill ar draws y rhanbarth. Ceir cynrychiolaeth dda o uwch reolwyr o Sir Fynwy ar y Bwrdd, gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant yn cynrychioli'r Cyngor, ac mae presenoldeb Pennaeth Tai Sir Fynwy yn adlewyrchu lefel yr ymrwymiad, a'r gwerthfawrogiad o fewn y Cyngor fod ei gyfrifoldebau diogelu yn ymestyn i bob rhan ohono.

52 At ei gilydd, mae partneriaid allanol yn gefnogol iawn o gyfeiriad y Cyngor yng nghyswllt diogelu, fel y gwelir drwy'r BDPDDdC. Mae Ymgyrch Quartz yn enghraifft o weithredu a chydweithio'n rhanbarthol a godwyd o'n grwpiau ffocws â phartneriaid allanol. Cafodd yr ymgyrch ei chynnal fel peilot yng Nghasnewydd yn flaenorol, ac erbyn hyn mae'n cael ei rhoi ar waith ar draws Sir Fynwy ac mewn awdurdodau eraill yn Ne Ddwyrain Cymru, yn gysylltiedig â'r grŵp Aml-asiantaeth ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MASE). Nod yr ymgyrch yw cynyddu ymwybyddiaeth amryw o asiantaethau a rhannu gwybodaeth a'r ymateb i achosion lle ceir Camfanteisio Rhywiol ar Blant a risgiau cysylltiedig.

53 Rhennir llawer o wybodaeth ar draws partneriaid diogelu rhanbarthol Gwent, a bydd gwersi a ddysgwyd yn sgil adolygiadau arfer plant yn cael eu harchwilio. Pwysleisiwyd yn arbennig yr angen i sicrhau bod amddiffyn plant yn drech nag unrhyw bryderon ynghylch Diogelu Data. Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ffurfio'r Ganolfan Plant Coll. Un o fentrau Heddlu Gwent a ffurfiwyd yn 2014 yw'r Ganolfan, ac mae'n cynnwys y Tîm Plant Coll. Maer tîm hwn yn cynnwys yr Heddlu a chynrychiolwyr o'r gwasanaethau iechyd, y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal â chynnal asesiad risg helaeth a chynhwysfawr ar gyfer plant coll, mae'r tîm hefyd yn cynnal sesiynau ôl-friffio gyda'r plant hynny sydd wedi bod ar goll, er mwyn deall pam yr aethant ar goll, ac atal hynny rhag digwydd eto. Ar ben hyn, ceir 'hyrwyddwyr' lleol yn sgil y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sydd wedi cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r materion hyn, a'r ymateb iddynt.

54 Mae gan bob cyngor sydd yn aelod o BDPDDdC ei rwydwaith diogelu lleol ei hun. Cadeirir rhwydwaith Sir Fynwy gan reolwr y gwasanaeth diogelu, ac mae'r rhwydwaith wedi gwneud cynnydd da hyd yma. Mae'r rhwydwaith yn fforwm defnyddiol i godi ymwybyddiaeth aelodau'r grŵp o ddatblygiadau mewn gwahanol agweddau ar ddiogelu, y gallant wedyn eu rhannu â'u meysydd a'u timau gwasanaeth. Yn sgil dylanwad y grŵp hwn, er enghraifft, mae ffurflen atgyfeirio aml-asiantaeth newydd wedi cael ei datblygu. Mae'r grŵp hefyd wedi bod o gymorth i sicrhau cysondeb wrth ddehongli protocolau a gweithdrefnau diogelu.

55 Barn Estyn oedd bod y system ar gyfer prosesu a mynd ar drywydd Ffurflenni Atgyfeirio Aml-asiantaeth yn cael ei hystyried yn effeithiol, a bod staff a oedd yn amlwg yn gymwys ac yn hyderus wrth eu gwaith yn cyflawni'r gwaith hwnnw, gyda chefnogaeth wrth law i gefnogi a chyfrannu at benderfyniadau lle bo angen.

56 Nodir yn y datganiad sefyllfa a ddarparwyd gan y Cyngor fod y Cyngor yn barod i chwarae rhan lawn ar dras trefniadau rhanbarthol ar gyfer diogelu, a'i fod yn cydnabod pwysigrwydd a rôl statudol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod 'angen

gwneud mwy o waith i gryfhau'r cysylltiadau rhwng gweithgarwch lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac i sicrhau bod y gwersi a ddysgir o'r byrddau rhanbarthol a'r is-grwpiau yn cael eu hymwreiddio mewn arfer a gweithredu yn Sir Fynwy'.

## Mae'r trefniadau i fonitro, rheoli a chraffu ar berfformiad a risg yn gadarn ar y cyfan

57 Mae Uned Diogelu a Sicrhau Ansawdd y Cyngor yn cefnogi'r Cyngor a'i bartneriaid wrth sicrhau'r arferion gorau wrth ddiogelu. Sefydlwyd yr uned yn nhymor yr hydref 2012, ac mae ei gweithlu yn cynnwys Rheolwr Diogelu, Swyddog Arweiniol ar gyfer Diogelu mewn Addysg, y Cydgysylltydd Amddiffyn Plant, y Swyddog Adolygu Annibynnol, a 2 Weinyddwr Amddiffyn Plant. Bwriad yw Cyngor yw y bydd yr uned yn sicrhau bod diogelu wedi'i alinio'n gryf â gwasanaethau plant ac oedolion gweithredol, a hefyd yn creu cyswllt effeithiol â gweithgareddau'r byrddau diogelu rhanbarthol aml-asiantaeth.

58 Yr Uned sydd yn arwain gweithrediad y strategaeth diogelu corfforaethol a gweithrediad y polisi diogelu. Bydd yr uned yn cychwyn y broses o uno'r gwasanaeth diogelu oedolion a phlant, yn ogystal â'r cyfrifoldeb ehangach i ddiogelu dinasyddion Sir Fynwy. Bwriedir iddi fod yn bartner gweithgar ar Grwpiau a Byrddau Diogelu De Ddwyrain Cymru er mwyn sicrhau bod canllawiau rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu gweithredu.

59 Defnyddir y broses SAFE (Fframwaith Archwilio Diogelu ar gyfer Gwerthuso) gan y Cyngor i fonitro'r graddau y mae'r holl Dimau Rheoli Adrannol, yr ysgolion a'r holl leoliadau eraill sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a oedolion sy'n agored i risg, yn cydymffurfio â'r polisi diogelu. Cynhelir yr archwiliad dwywaith pob blwyddyn, a defnyddir yr wybodaeth i wella'r trefniadau diogelu. Cafodd y broses SAFE ei hymestyn o gynnwys y Gwasanaethau Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig i gynnwys 'holl wasanaethau'r Cyngor' yn ystod 2017. Cafodd y fethodoleg SAFE ei chynnwys ym mholisi diogelu 2017. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r broses SAFE ar draws holl wasanaethau'r cyngor oedd 31 Gorffennaf 2017.

60 Mae'r gofrestr risg strategol yn adlewyrchu perchnogaeth ar risg, a'r cyfrifoldeb dros risg, ar lefel uwch reoli briodol, ac ar lefel y cabinet. Rhoddir proffil uchel priodol i ddiogelu yn gyffredinol, ac i ddiogelu plant yn arbennig, ac mae hynny wedi'i ymwreiddio ochr yn ochr â llywodraethu da, ymagwedd ataliol a gweithlu diogel.

61 Rheolir achosion posibl o dorri'r polisi diogelu fel digwyddiadau o bwys drwy'r broses SCAA (Sefyllfa-Cefndir-Asesiad-Argymhelliad). Yn rhan o'r broses hon bydd adroddiad strwythuredig yn cael ei lunio yn nodi'r materion, y risg a'r amgylchiadau. Ni fydd prosesau SCAA ond yn dod i ben ar ôl cael sicrwydd digonol bod y risgiau'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy. Mae wyth proses SCAA wedi cael eu cwblhau ers cyflwyno'r system rhwng Ebrill 2017 a Medi 2017. Gallai enghraifft o SCAA gynnwys achos o dorri rheol polisi yn gysylltiedig â'r gofyniad am wiriad DBS uwch, neu fethiant ar ran cyflogai i gydymffurfio â'r polisi drwy ddechrau ei swydd heb i'r gwiriadau priodol gael eu cynnal. Mae nodyn cyfarwyddyd SCAA y Cyngor yn adnodd defnyddiol i reolwyr adrodd digwyddiadau o bwys pan fo maes gwasanaeth wedi ymddwyn mewn modd sy'n groes i bolisi a safonau diogelu'r Cyngor ei hun.

62 Ceir tystiolaeth gadarn o archwilio gwybodaeth Diogelu, adnabod tueddiadau, ac o themâu a materion sy'n dod i'r amlwg yn gysylltiedig â Phlant a Phobl Ifanc ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Cyfeirir at gryfderau a meysydd i'w gwella wrth adrodd yn ffurfiol, gan gynnwys cydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn niferoedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

63 Cynhelir archwiliad o'r Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP) bob chwe mis, gan anelu i adnabod patrymau a thueddiadau, sy'n cynnwys cyflwyno argymhellion ynghylch gwella arfer gerbron y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc. Mae hyn yn gweithredu fel proses sicrhau ansawdd yn gysylltiedig â chyfraddau atgyfeirio i'r CAP, a'r angen i gynyddu elfennau ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol (a gymeradwywyd gan y cabinet ym mis Rhagfyr 2017) er mwyn gwrthdroi cynnydd parhaus mewn atgyfeiriadau. Mae'n rhy gynnar, hyd yma, i brofi effeithiolrwydd yr ymagwedd a'r ymateb hwn.

64 Mae Ffurflen Atgyfeirio Aml-asiantaeth (FfAA) y Cyngor, a'r siart lif atgyfeirio a phenderfynu y gwelwyd y tîm Cymorth Cynnar, Dyletswydd ac Asesu yn eu defnyddio, yn effeithiol wrth gefnogi a gwerthuso'r broses benderfynu sy'n gysylltiedig ag atgyfeiriadau diogelu a gyflwynwyd i'r tîm Diogelu Plant.

65 Mae'r Cyngor wedi rhoi systemau technoleg gwybodaeth ar waith i gefnogi trefniadau i gadw data ar blant y mae angen mesurau atal, a mesurau amddiffyn arnynt. Cronfa ddata gynhwysfawr a defnyddiol yw system PLANT y Cyngor. Mae'n rheoli achosion ac yn cadw cofnodion, a gall staff perthnasol ei chyrchu, gan gynnwys penaethiaid.

66 Ym mholisi newydd y Cyngor ar Ddiogelu Corfforaethol 2017, ystyrir bod diogelu yn rhan annatod o'r holl adroddiadau y mae angen penderfynu yn eu cylch. Mae templed adroddiadau safonol y Cyngor ar gyfer holl adroddiadau pwyllgor yn cynnwys adran benodol i nodi unrhyw 'oblygiadau o ran diogelu'.

67 Cyflwynwyd cynigion i gael 'dangosfwrdd' o wybodaeth am berfformiad gerbron GDAC ar 24 Ionawr 2018. Gwybodaeth sylfaenol yw'r wybodaeth hon, sy'n cynnwys cymysgedd o fesurau 'cyd-destunol' a pherfformiad, ond bydd yn galluogi gwell rheolaeth gyffredinol. Siaradai uwch reolwyr a staff yn gadarnhaol ynghylch ansawdd ac ystod yr wybodaeth sydd ar gael yn sail ar gyfer eu gwaith, gan gyfeirio at y dangosfwrdd a chronfa ddata PLANT fel enghreifftiau.

68 Nodir rôl swyddogaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn gysylltiedig â diogelu plant ar dudalen 10 o'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Mae cynllun Archwilio Mewnol 2018-19 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn ôl yr wybodaeth gynnar sydd ar gael bydd yn cynnwys adolygiadau o drefniadau recriwtio mwy diogel, gwirfoddoli, ysgolion cynradd a DBS a staff asiantaeth. Bydd archwilio mewnol a'r Uned Diogelu a Sicrhau Ansawdd hefyd yn profi'r cysylltiadau rhwng cynlluniau gweithredu a SAFE yn ystod 2018-19. Ystyriwyd Cynllun Archwilio Mewnol 2018-19 gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ar 8 Mawrth 2018.

# Ceir diffygion mewn rhai meysydd polisi a gweithredu hanfodol

## Nid yw'r polisi diogelu wedi'i integreiddio'n ddigonol eto ar draws fframwaith polisi'r Cyngor

69 Mae'r trefniadau diogelu plant yn gryfach, yn fwy systematig ac wedi'u hymwreiddio'n dda mewn gwasanaethau sydd wedi bod yn gweithredu strwythur diogelu cliriach ers blynyddoedd, fel gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol i blant a phobl ifanc. Nid yw diogelu wedi'i ymwreiddio gystal mewn meysydd eraill fel tai, trafnidiaeth a gwasanaethau corfforaethol.

70 Mae prosesau cynllunio gwella wedi bod ar waith ers blynyddoedd o fewn y Cyngor, a dylid ymwreiddio risgiau diogelu yn y broses honno. Mae amlygrwydd diogelu ym mhrosesau cynlluniau gwella gwasanaethau yn amrywio.

71 Nid yw Cynlluniau Gwella Gwasanaeth (CGG) y Cyngor yn ddigon CAMPUS[5] , ac nid ydynt ychwaith yn nodi'r goblygiadau o ran adnoddau ym mhob rhan o'r Cyngor. Er enghraifft, mewn rhai achosion dywedir yn rhy aml fod eitemau penodol yn perthyn i'r 'gyllideb graidd'. Byddai'r cynlluniau yn elwa ar ddadansoddiad cliriach o wybodaeth am gostau. Mae ansawdd a chynnwys CGGau yn amrywio o ran ansawdd a chynnwys, ac fe geir diffyg cysondeb rhwng y CGGau. Ni cheir llinell sylfaen systemig ar gyfer pob maes gwasanaeth ar gyfer y safonau a'r mesurau rheoli sydd ar waith yn achos gwasanaethau a gomisiynir. Nid yw'r Cynllun Gwella Gwasanaeth diogelu yn cyfuno'r holl agweddau ar ddiogelu mewn un man.

72 Nid yw'r Cyngor wedi cynnal ymarfer systematig i olrhain CGGau nac wedi archwilio'r cynnwys i sicrhau bod risgiau wedi'u lliniaru'n gyffredinol, a bod pob bwlch wedi'i gau, yn enwedig o ran ymagwedd gwasanaethau at ddiogelu plant. Dyma faes pwysig ar gyfer gwella, fel bod y Cyngor yn gallu dangos bod ganddo drosolwg strategol clir o drefniadau diogelu ar draws ei holl gynlluniau gwella gwasanaeth. Yn ystod 2018-19 mae'r Adran Archwilio Mewnol yn bwriadu profi effeithiolrwydd cysylltiadau rhwng CGGau a'r cynllun corfforaethol.

73 Mae rhai o'r camau lliniaru a nodwyd mewn CGGau yn gamau lefel uchel amhenodol sydd yn anodd eu mesur. Er enghraifft, 'Monitro a gwerthuso proses ac arfer yn barhaus ac adolygu atebolrwydd dros ddiogelu, a gweithredu'r camau a nodir, yn enwedig gwneud defnydd gwell o wybodaeth'. Nid yw'n glir sut y gellir gweithredu'r cam hwn, na mesur ei effeithiolrwydd.

74 Dylid ystyried materion yn gysylltiedig â thai yn rhan o ymagwedd integredig at ddiogelu. Er enghraifft:

- gall byw mewn llety ansefydlog neu anaddas amharu ar iechyd, lles a diogelwch plant;

[5] Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol

- gellir gwella lles plentyn yn sylweddol drwy drefnu bod y rhai sydd angen mynediad at addasiadau yn cael y flaenoriaeth i dderbyn yr addasiadau hynny drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCAau); a
- dylid ystyried diogelu wrth wirio llety gwely a brecwast i deuluoedd â phlant.

75 Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd y Cyngor wedi llunio strategaeth tai, a oedd yn pennu fframwaith cyffredinol ar gyfer tai yn Sir Fynwy. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dweud ei fod yn bwriadu llunio Strategaeth Dai Leol, ac wedi cynnwys hynny fel un o'r camau gweithredu yng Nghynllun Busnes tair blynedd y Gwasanaeth sydd ar ddod ar gyfer 2018-2021.

76 Ni cheir llawer o ganllawiau i reolwyr ynghylch yr wybodaeth am ddiogelu y dylid ei chynnwys mewn adroddiadau i'r aelodau. Byddai canllawiau ychwanegol yn helpu i sicrhau bod diogelu yn cael lle amlwg ar holl lwybrau adrodd y Cyngor. Yn ogystal â hynny, mae rhai agweddau ar y canllawiau wedi dyddio, ac mae angen eu hail-lunio. Er enghraifft, mae'r canllawiau a ddarperir i reolwyr ar gwblhau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn wan, ac yn ymddangos fel pe baent wedi dyddio.

77 Mae'r wybodaeth mewn canllawiau polisi ynghylch cofnodi, monitro neu reoli perfformiad yng nghyswllt cwynion dienw am weithredu amhriodol yn erbyn plant yn brin iawn.

78 Dywedodd aelodau uwch o staff y Cyngor y buom yn siarad â hwy fod y broses o integreiddio agweddau ar eu trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yn 'waith ar y gweill'.

79 Mae holl dirlun gwiriadau DBS yn gymhleth i bob Cyngor a chorff cyhoeddus. Polisi Sir Fynwy yw dim ond ailwirio DBS ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n adnewyddu eu DBS, ac sydd angen ailwiriad i ddibenion eu cofrestriad. Gwelsom fod y gofynion yn amrywio rhwng gwahanol wasanaethau o fewn y Cyngor. Mae a wnelo'r gwahaniaethau hyn â threfniadau gwirio dwbl ac adnewyddu, diffyg eglurder ynghylch gwirio gwybodaeth adnabod o wledydd tramor, a gwiriadau lle bydd pobl wedi bod yn absennol o'r DU am gyfnod estynedig. Yn achos trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol, gall tair blynedd a mwy fynd heibio nes bod angen ailwirio, ac nid yw'n ofynnol i rai gyrwyr bws ar lwybrau cyhoeddus dderbyn gwiriad DBS o gwbl.

80 Ni roddir digon o sylw i ddiogelu data yn nogfennau polisi diogelu'r Cyngor. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i bawb ddeall yn glir sut mae'r Cyngor yn disgwyl i'w staff a'i aelodau ddefnyddio a diogelu data personol yn gysylltiedig â diogelu. Nid yw Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017 yn cyfeirio at drefniadau diogelu data. Er bod staff y buom yn cyfweld â hwy wedi crybwyll WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru), ni chyfeirir at WASPI ym mholisi diogelu'r Cyngor, nac mewn dogfennau eraill allweddol. Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), a ddaeth yn orfodadwy ym mis Mai 2018, yn cael effaith sylweddol ar ofynion diogelu data. Yn arbennig, bydd angen i'r Cyngor fodloni egwyddor atebolrwydd y GDPR; bydd angen iddo gadw dogfennau priodol am ei drefniadau ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys polisïau a hyfforddiant staff. Gallai methu cydymffurfio â'r gofynion hyn olygu bod y Cyngor yn agored i gosbau ariannol sylweddol, yn ogystal â niwed i'w enw da.

81 Er bod y Cyngor yn cyfleu'n glir bod pawb yn gyfrifol am ddiogelu, nid yw hynny wedi'i grybwyll mewn llawer o swydd-ddisgrifiadau, ac nid yw'r uwch swyddogion y buom yn siarad â hwy yn gwybod pa swydd-ddisgrifiadau sy'n cynnwys gofynion diogelu neu beidio.

Gan hynny, gallai cyfrifoldebau penodol fel dyletswydd i adrodd pryderon fod wedi'u cynnwys, neu heb eu cynnwys, mewn swydd-ddisgrifiad er eu bod yn berthnasol, neu heb fod yn berthnasol i'r rôl. Yn benodol, nid yw trefniadau i arwain materion diogelu wedi'u cynnwys yn swydd-ddisgrifiadau Arweinwyr Diogelu'r Cyfarwyddiaethau. Er bod y polisi Diogelu Corfforaethol yn nodi bod gan yr holl staff ddyletswydd gofal, a dyletswydd i adrodd, ni chyfeirir at hynny i'r un graddau mewn Swydd-ddisgrifiadau. Gallai hyn greu dryswch ymhlith y staff, a gallai rwystro ymdrechion i herio ymwybyddiaeth o faterion diogelu plant yn effeithiol.

82 Gellid cyflwyno gwelliannau gweinyddol a thechnegol i ddogfennau a pholisïau'r Cyngor. Er enghraifft, er bod y polisi diogelu yn cynnwys cyfeiriadau addas at ddogfennau eraill perthnasol y Cyngor, er enghraifft y polisi gwirfoddoli a'r polisi DBS, nid yw'r holl ddolenni'n gweithio, ac nid yw'r cysylltiadau, y dyddiadau a'r cyfeiriadau yn gyson bob amser. Mae hyn yn cyfyngu ar eglurder ynghylch natur gynhwysfawr trefniadau diogelu plant - rhywbeth y mae'r Cyngor yn anelu i'w sicrhau.

83 Gallai canllawiau fod yn fwy amlwg mewn rhai agweddau. Er enghraifft mae'r ddolen ar wefan y Cyngor i wybodaeth ddiogelu wedi'i lleoli o dan y pennawd 'gwasanaethau cymdeithasol'. Mae hyn yn groes i ymagwedd awdurdod cyfan y Cyngor at ddiogelu, ac yn groes i'r syniad bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Yn ogystal â hynny, mae 'taflen Sir Fynwy' yn cynnwys proses atgyfeirio'r Cyngor ar ffurf siart lif, ond nid yw'n rhoi arweiniad ynghylch yr hyn y dylid ei wneud os oes gennych atgyfeiriad neu bryder ynghylch arweinydd diogelu'r Cyngor.

## Nid yw pob agwedd ar recriwtio'n ddiogel, ymsefydlu a hyfforddi wedi'u hymwreiddio'n gyson

84 Yn y datganiad sefyllfa a gwblhawyd gan y Cyngor cyn ein hadolygiad, mae'r Cyngor yn cydnabod bod bylchau mewn strategaethau a chynlluniau hyfforddi ar ddiogelu plant, a bod angen system awdurdod cyfan i gofnodi hyfforddiant. Nid oedd uwch swyddogion y buom yn siarad â hwy yn gallu cadarnhau lefel yr hyfforddiant a dderbyniwyd ar draws yr holl adrannau. Er bod cronfa ddata ganolog yn cael ei chreu, mae pob adran o fewn y Cyngor yn gyfrifol am hyn, yn hytrach na rheoli a monitro'r gwaith gweinyddol yn gysylltiedig â hyfforddiant yn ganolog. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu lefel uchel o hyfforddiant diogelu i'w weithwyr.

85 Gallai ymagwedd y Cyngor at ddarparu hyfforddiant diogelu olygu bod y niferoedd sy'n manteisio ar yr hyfforddiant hwnnw'n amrywio. Nodir manylion cyffredinol ynghylch gofynion hyfforddi ym mholisi diogelu'r Cyngor ar gyfer gwahanol rannau o'r gweithlu. Fodd bynnag, gan nad yw'r wybodaeth honno'n fanwl rheolwyr unigol sy'n penderfynu ynghylch lefel yr hyfforddiant diogelu.

86 Mae'r system hyfforddi 'my view' yn darparu rhestr o deitlau swydd a lefel yr hyfforddiant diogelu a dderbyniwyd. Fodd bynnag, nid yw'n glir pam bod yr unigolyn wedi derbyn hyfforddiant at y lefel dan sylw, pryd y derbyniwyd yr hyfforddiant, a phryd y mae angen ei adolygu. Ar ben hynny, ceir ambell fwlch lle nad yw pobl wedi derbyn unrhyw hyfforddiant o

gwbl, a lle na cheir unrhyw esboniad o'r rhesymau wrth wraidd hynny, na phryd yr eir i'r afael â'r sefyllfa.

87 Nid oes gan y Cyngor fecanwaith gwirio samplau er mwyn canfod a yw amgylchiadau'r unigolyn wedi newid, os yw wedi dal tystysgrif DBS ers sawl blwyddyn. Yng nghanllawiau'r Cyngor, yn achos trwyddedu tacsis, er enghraifft, cyfrifoldeb y gyrrwr tacsi yw dweud os yw ei amgylchiadau'n newid, yn hytrach na bod y Cyngor yn gwirio'r unigolyn mewn modd rhagweithiol.

88 Ceir rhai anghysondebau yn nefnydd y Cyngor o offeryn gwirio DBS ar-lein y Llywodraeth, a rhai bylchau yng nghanllawiau'r Cyngor am yr hyn a ystyrir yn 'weithgarwch wedi'i reoleiddio' lle mae angen gwiriad DBS uwch. Mae hyn wedi arwain at un achos Sefyllfa-Cefndir-Asesiad-Argymhelliad (SCAA) lle'r oedd yr offeryn ar-lein yn dweud nad oedd angen i unigolyn dderbyn gwiriad DBS uwch, ond lle'r oedd polisi a chanllawiau yn dweud fel arall. Byddai'n fuddiol i'r Cyngor gynnwys esboniad yn ei bolisi a'i ganllawiau ynghylch yr hyn a ystyrir yn 'weithgarwch wedi'i reoleiddio' y mae angen cynnal gwiriad DBS uwch ar ei gyfer.

89 Ym mholisi gwirfoddoli'r Cyngor, ac yn ei ddogfennau eraill, mae angen cynnwys diffiniad llawnach a chliriach o weithgarwch wedi'i reoleiddio, yr hyn y mae 'Gweithio tuag at Hyfforddiant Diogelu Lefel 1' yn ei olygu yn ymarferol, a'r hyn y dylai gwirfoddolwyr ei wneud os oes ganddynt bryderon ynghylch eu goruchwylydd.

90 O'r cyfweliadau a gynhaliwyd gennym yn rhan o'r adolygiad hwn, roedd hi'n glir bod staff yn rhoi cryn sylw i'r gwiriad DBS fel y prif fecanwaith rheoli er mwyn recriwtio'n ddiogel a lliniaru risg. Nid oedd y staff yn gallu cyfleu i'r un graddau eu bod wedi rhoi ystyriaeth wirioneddol i'r holl risgiau ym maes diogelu plant, er enghraifft drwy eirdaon a gwiriadau iechyd.

## Caiff trefniadau rheoli eu gweithredu mewn modd anghyson, gan ddatgelu rhai bylchau o ran atebolrwydd

91 Er bod gan y Cyngor fframwaith diogelu plant corfforaethol, ceir bylchau yn y modd y caiff hwnnw ei gymhwyso, ei weithredu a'i reoli mewn rhai meysydd, ac nid yw rhai trefniadau eraill wedi'u hymwreiddio'n gyson mewn arferion eto.

92 Mae'r Cyngor ar ganol cryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad. Mae gan y Cyngor yr wybodaeth berthnasol i reoli ei berfformiad wrth ddiogelu, ond nid yw'r wybodaeth honno wedi'i harddangos yn glir ac yn dryloyw eto.

93 Mae rhai agweddau ar reoli perfformiad yn gysylltiedig â diogelu plant yn dal heb eu datblygu a'u gweithredu. Er enghraifft, mae'r trefniadau i fesur effaith gweithgarwch ataliol yn dal heb eu diffinio a'u datblygu. Nid yw targedau wedi'u gosod yn llawn eto ar gyfer rhai mesurau diogelu, ac mae'r grŵp yn dal heb gytuno ar ystod lawn y mesurau perfformiad a'r cylchoedd adrodd ar gyfer data craidd.

94 Gallai'r trefniadau i reoli gwybodaeth am ddiogelu rwystro gwelliant. Nid oes gan Uwch Swyddogion ddull 'trosfwaol' o asesu effaith a chanlyniadau perfformiad yn gysylltiedig â diogelu sydd yn hygyrch neu 'mewn un man'.

95 Nid yw'r Cyngor bob amser yn dangos sut mae diogelu yn rhan gynhenid a pharhaus o'i weithgarwch. Nid yw'r Cyngor wedi cynnal archwiliad 'gwraidd a changhennau' o bob achlysur pan fydd plentyn yn rhyngweithio ag ef, er mwyn cafod pa wybodaeth a allai fod yn angenrheidiol er mwyn asesu a oes risgiau posibl. Mae hyn yn cyfyngu ar effeithiolrwydd cyffredinol trefniadau monitro perfformiad i liniaru risg.

## Ceir gwendidau yn nhrefniadau comisiynu a chontractio'r Cyngor ar gyfer diogelu plant

96 Trefniadau comisiynu neu gontractio yw sefyllfaoedd lle bydd gwasanaethau'n cael eu darparu ar ran cynghorau gan sefydliadau eraill, fel cwmnïau preifat neu sefydliadau o'r sector gwirfoddol. Bydd y Cyngor yn ymrwymo i gytundeb neu gontract â'r sefydliad, a bydd telerau'r cytundeb wedi'u nodi yn y contract neu'r dogfennau comisiynu.

97 Mae angen mwy o eglurder a mesurau diogelu ym maes comisiynu a chaffael contractau er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu lliniaru lle bynnag y bo modd. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac wedi bod yn canolbwyntio ar wasanaethau a gomisiynir dros y 12 mis diwethaf. Y mae hefyd wedi bod yn cyflwyno gwelliannau i drefniadau a nodwyd ganddo yn drefniadau yr oedd angen eu cryfhau. Yn ein hadolygiad, gwelsom rai gwendidau y bydd angen i'r Cyngor eu hymgorffori yn rhan o'i waith i gryfhau trefniadau diogelu.

98 Nid yw'r Cyngor wedi cwblhau'r safonau diogelu gofynnol ar gyfer comisiynu, contractio a gwirfoddoli eto. Cafodd drafft o'r safonau gofynnol ei gyflwyno mewn cyfarfod o GDAC ym mis Ionawr 2018. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys canllawiau penodol ar rannu data nac ar ddefnyddio a diogelu data.

99 Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi nodi gwendidau diogelu mewn trefniadau comisiynu ar gyfer lleoli plant yn allanol. Rhoddodd y Cyngor gynllun gweithredu ar waith mewn ymateb i adroddiad archwilio mewnol ar y mater. Cafodd y cynllun gweithredu hefyd ei gyflwyno gerbron GDAC ym mis Ionawr 2018, ond nid yw eto wedi'i gytuno'n ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r gwendidau bellach wedi'u datrys, er bod sawl cam arall yn y cynllun yn dal heb ei gwblhau.

100 Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn ei gwneud hi'n ofynnol i bartneriaid, sydd yn cael eu comisiynu neu eu contractio, i ddefnyddio proses hunanwerthuso SAFE. Gellid sefydlu cyfundrefn debyg ar gyfer y trefniadau eraill hyn yn rhan o weithdrefnau contract. Byddai hynny'n creu strwythur cyffredin i werthuso a rhoi sicrwydd ynghylch diogelu.

101 Mae angen eglurder pellach o ran gwirio bod contractwyr yn cydymffurfio'n llawn ag arferion recriwtio diogel. Er enghraifft, ym mholisi diogelu'r Cyngor, nodir bod 'pob contractwr, is-gontractwr a sefydliadau eraill a ariennir gan y Cyngor yn gyfrifol am drefnu gwiriadau drwy'r broses recriwtio diogel, ac am sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'r holl drefniadau mewn rheoliadau a chontractau sydd yn gysylltiedig â'u cyfrifoldebau diogelu'. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r Cyngor yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â hyn. Yn ogystal â hynny, er mwyn recriwtio'n ddiogel mae angen eglurder pellach ynghylch rolau a chyfrifoldebau asiantaethau cyflogaeth, a lliniaru risgiau ymhellach drwy fonitro i sicrhau eu bod yn cynnal y gwiriadau perthnasol ac yn sicrhau geirdaon ar gyfer unrhyw aelod o staff sydd yn cael cynnig swydd neu leoliad o fewn y Cyngor.

102 Mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen dealltwriaeth fanwl o’r sefyllfa bresennol ar draws y Cyngor cyfan o ran comisiynu. Cytunwyd y bydd yr adran archwilio mewnol yn cyflawni gwaith yn y maes hwn yn ystod eu rhaglen archwilio ar gyfer 2017-18.

103 Yn ôl canllawiau a pholisi trwyddedu tacsis y Cyngor, ystyrir pob achos yn ôl ei rinweddau, a bydd yr ystyriaeth honno’n wedi’i seilio’n rhannol ar gyfweliadau a gynhelir â’r ymgeisydd er mwyn penderfynu ynghylch achosion unigol. Bydd angen i’r Cyngor ei sicrhau ei hun fod ganddo drefniadau priodol a digonol i ddiogelu plant sy’n cael eu cludo mewn tacsis rhwng eu cartref a’r ysgol. Mae hyn yn cynnwys ymroi’n rhagweithiol i adolygu ei bolisi, ac archwilio a gwirio datgeliadau, adolygu achosion lle cafwyd datgeliadau a lle bo tacsis yn cael eu defnyddio i gludo plant.

104 Nid oes gan y Cyngor system ragweithiol i wirio tystysgrifau DBS gyrwyr yn rheolaidd, ond mae’n gofyn i weithredwyr annibynnol ymuno â ‘gwasanaeth diweddaru’ DBS y llywodraeth. Deellir bod hapwiriadau’n arfer cael eu cynnal er mwyn canfod a oedd cwmnïau tacsi yn cydymffurfio â’r rheolau, ond ni chynhelir y rheiny bellach. Fodd bynnag, mae’n dda bod holl staff mewnol yr Uned Cludo Teithwyr wedi’u hyfforddi at lefel un, ac y bydd yn darparu hyfforddiant at lefel un i’r holl gontractwyr allanol.

105 Cynigir hyfforddiant i gontractwyr allanol, sef cwmnïau tacsi yn benodol, ond nid yw hyfforddiant lefel un ar Ddiogelu yn ofynnol yn nhrefniadau contract gyrwyr tacsi a ddefnyddir gan y Cyngor. Caiff hebryngwyr eu cyflogi gan y cwmnïau tacsi, ac mae’r Cyngor yn dibynnu ar y cwmnïau tacsi i benderfynu ynghylch addasrwydd yr hebryngwr. Y cwmni tacsi ei hun sy’n gyfrifol am wirio’r meini prawf DBS o fewn y cwmni tacsi.

106 Yn ogystal â threfniadau ar gyfer gweithredu’n arferol, byddai angen i’r Cyngor ei sicrhau ei hun fod ganddo drefniadau digonol wrth gefn i amddiffyn plant sy’n defnyddio tacsis i deithio rhwng y cartref a’r ysgol. O gofio’r cyd-destun gwledig a’r diffyg derbyniad ar ffonau symudol mewn rhai ardaloedd, credwn fod angen ystyried trefniadau wrth gefn a chofnodi gweithdrefnau ar gyfer hynny.

107 Ni cheir camau cynhwysfawr i gynnig amddiffyniad ychwanegol i blant sy’n defnyddio cludiant rhwng y cartref a’r ysgol. Dywedodd Uwch Swyddogion wrthym fod y Cyngor yn cyflwyno ‘llyfr rheolau Teithwyr’ i rieni. Fodd bynnag, mae’r llyfr rheolau teithwyr wedi dyddio ac yn cynnwys cyfeiriadau at wiriadau’r Swyddfa Cofnodion Troseddol, yn hytrach na’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Nid oes dyddiad arno ychwaith ac mae’r wybodaeth ynddo yn anghyson.

# Atodiad 1

## Argymhellion: Adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru, 2015

Dangosyn 2: Argymhellion cenedlaethol o'r adroddiad ar Adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru, 2015, sydd yn berthnasol i bob cyngor yng Nghymru

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu drwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, a rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a'r rhanddeiliaid. |
| A2 | Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. |
| A3 | Cryfhau'r trefniadau i recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel drwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau DBS; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. |
| A4 | Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni ymsefydlu;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor, ymhlith aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A5 | Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad sy'n seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio DBS; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor |
| A6 | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor. |
| A7 | Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. |

Dangosyn 3: Cynigion lleol ar gyfer gwella i Gyngor Sir Fynwy o Adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2015 o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Adolygu'r Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant er mwyn sicrhau ei fod yn ymdrin yn ddigonol â holl wasanaethau'r Cyngor. |
| C2 | Sicrhau bod datblygiad yr Uned Diogelu a Sicrhau Ansawdd yn ei galluogi i gyflawni'r amcanion a gynlluniwyd ar ei chyfer. |
| C3 | Gwella ystod, ansawdd ac ymdriniaeth adroddiadau perfformiad diogelu er mwyn rhoi sicrwydd digonol bod systemau'n gweithio'n effeithiol. |

# Atodiad 2

## Argymhellion statudol: Trefniadau Diogelu Archwilydd Cyffredinol Cymru - adroddiad lleol ar gynllun Kerbcraft, 2017

Dangosyn 4: Argymhellion statudol

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor gadw cofnodion llawn am wirfoddolwyr, gan gynnwys tystiolaeth o wiriadau DBS, holiaduron iechyd galwedigaethol, hyfforddiant diogel a manylion am eirdaon. |
| A2 | Dylai'r Cyngor lunio canllawiau a gweithdrefnau manwl mewnol er mwyn gweithredu ei gynllun Kerbcraft, fel bod staff yn deall yn glir sut y dylid gweithredu'r cynllun. |
| A3 | Dylai'r Cyngor sefydlu trefniadau effeithiol i reoli a chraffu ar berfformiad ar gyfer cynllun Kerbcraft, a chadarnhau rolau'r Uned Diogelu a Sicrhau Ansawdd a'r Adran Archwilio Mewnol o fewn y trefniadau hynny. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales